



NUSS

National Union of
School Students

Pecyn gwybodaeth i athrawon

Croeso i Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Ysgol (UCMY), rydyn ni mor gyffrous bod eich ysgol wedi ymuno! UCMY yw'r undeb cenedlaethol sy'n cynrychioli disgyblion ysgolion uwchradd, gan gynnwys myfyrwyr chweched dosbarth, ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Rydym yn adeiladu mudiad cryf, democrataidd o fyfyrwyr ysgol i weithredu ar y materion pwysig - o addysg ac iechyd meddwl i'r argyfwng hinsawdd a chostau byw.

Beth yw eich rôl chi?

Fel aelod o staff byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau y gall myfyrwyr yn eich ysgol gymryd rhan weithredol yn nemocratiaeth UCMY.

Bob blwyddyn, fel aelod o UCMY, **gofynnir i gyngor eich ysgol ddethol cynrychiolwyr UCMY**. Rôl cynrychiolwyr UCMY fydd chwarae rhan weithredol mewn ymgyrchoedd UCMY trwy gydol y flwyddyn, casglu barn myfyrwyr yn eich ysgol i lunio blaenoriaethau UCMY, a mynychu ein digwyddiadau



NUSS

National Union of
School Students

lein fel cynrychiolwyr eich ysgol. Bydd ganddyn nhw hefyd y cyfle i gynnig eu hunain ar gyfer rôl Arweinyddiaeth Genedlaethol yn UCMY.

Mae rôl Cynrychiolydd UCMY yn hynod bwysig er mwyn sicrhau bod llais myfyrwyr eich ysgol yn cyfrannu at bŵer cyfunol UCMY trwy gydol y flwyddyn. **Mae angen cynrychiolwyr arnom sydd wedi arfer eirioli dros eu cyfoedion**, ac sy'n gallu cyfrannu at drafodaethau am y problemau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu. Felly gofynnwn i chi **enwebu cynrychiolwyr sydd wedi cael eu hethol i'ch cyngor myfyrwyr.**

IOs oes angen help arnoch i sefydlu eich cyngor ysgol, a sicrhau ei fod yn ddemocrataidd ac yn cynrychioli'r aelodau, [gallwch fwrw golwg ar ein canllaw.](#)

Bydd aelodau eich cyngor ysgol yn gyfrifol am ddewis eu cynrychiolwyr UCMY bob blwyddyn. Fel aelod o staff, eich rôl chi fydd eu tywys trwy'r broses hon, a sicrhau fod hyn yn cael ei wneud yn deg.



NUSS

National Union of
School Students

Dethol eich cynrychiolwyr UCMY

Nid oes gofyniad i gynnal etholiad yn benodol ar gyfer eich cynrychiolwyr UCMY. Cyn belled â bod pob aelod o gyngor eich ysgol yn cael cyfle cyfartal i gynnig eu hunain, chi sydd i benderfynu sut mae eich cynrychiolwyr UCMY yn cael eu dewis.

Er enghraifft, gallech gynnal pleidlais mewn cyfarfod cyngor ysgol, neu ddod i gytundeb trwy gonsensws ymhlith aelodau eich cyngor ysgol.

Dylech chi wneud eich gorau i **sicrhau bod cynrychiolwyr yn gallu siarad am amrywioldeb profiadau myfyrwyr**, a bod myfyrwyr anabl, LHDTC+, traws, menywod a'r rhai sy'n destun hiliaeth yn cael eu hannog yn weithredol i gynnig eu hunain. [Gallwch fwrw golwg dros ein canllaw Democratiaeth a Chynhwysiant am ragor o wybodaeth am hyn.](#)

Bydd nifer y cynrychiolwyr y mae gan eich ysgol hawl iddynt yn dibynnu ar faint eich ysgol. Mae niferoedd cynrychiolwyr fel a ganlyn:

**NUSS**National Union of
School Students

Niferoedd Myfyriwr	Nifer o Gynrychiolwyr
<500	2
500 - 999	3
1000 - 1499	4
1500 - 1999	5
2000+	6

Rydym yn gofyn i gynghorau ysgol ddewis cynrychiolwyr UCMY bob blwyddyn academiaidd, cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ar ôl i'ch cyngor ysgol gael ei ethol.

Rhannwch y pecyn gwybodaeth hwn gyda myfyrwyr ar gyngor eich ysgol fel eu bod yn deall beth mae bod yn gynrychiolydd yn ei olygu, ac yn cael eu hannog i gynnig eu hunain.

Unwaith y bydd cyngor eich ysgol wedi dewis eich cynrychiolwyr UCMY, a fydddech cystal â **llenwi'r ffurflen hon i roi gwybod i ni pwy yw eich cynrychiolwyr.**

**NUSS**National Union of
School Students

Noder, am resymau diogelu ni fyddwn yn cysylltu â'ch cynrychiolwyr UCMY yn uniongyrchol; **fel y prif gyswllt staff, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwylio allan am e-byst gennym ni** a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol i'ch cynrychiolwyr UCMY.

Sut gall myfyrwyr eraill gymryd rhan?

Mae cynrychiolwyr UCMY yn ein helpu i sicrhau y gall cyngor pob ysgol sy'n aelod gymryd rhan yn ein democratiaeth a mynychu ein digwyddiadau. Efallai bod gennych chi fyfyrwyr eraill sydd eisiau cymryd rhan yn UCMY, a byddem yn bendant yn annog hyn.

Dim ond mewn perthynas â gweithgareddau a digwyddiadau democrataidd UCMY y mae cyfyngiadau ar y nifer a all gyfranogi. **Mae ein hymgyrchoedd a'n digwyddiadau a gweithgareddau dylanwadu ar agor i bob myfyriwr.** Cyfeiriwch fyfyrwyr at [y dudalen hon](#) ar ein gwefan am ragor o wybodaeth am sut y gallant gymryd rhan.

Diolch yn fawr iawn am helpu i sicrhau bod myfyrwyr ysgol yn gallu dod at ei gilydd i greu newid go iawn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, **mae croeso i chi gysylltu â ni ar staff@nuss.org.uk**